*Gorchymyn Drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adrannau 3(1), (5) a (6) a 79(3) a (4) o Ddeddf Iechyd 2006, ar gyfer cymeradwyaeth drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L  
C Y M R U  D R A F F T

# 2012 Rhif (Cy. )

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2012

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007 (O.S. 2007/787 (Cy.68)) ("y Rheoliadau Di-fwg").

Mae rheoliad 2(3) o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod rheoliad 3A newydd yn y Rheoliadau Di-fwg. Ar yr amod y bodlonir yr amodau yn rheoliad 3A(2), mae rheoliad 3A(1) yn darparu esemptiad personol o'r gofynion di-fwg yn adran 2 o Ddeddf Iechyd 2006 a'r Rheoliadau Di-fwg, i berson sy'n cymryd rhan mewn perfformiad a roddir mewn cysylltiad â gwneud ffilm neu raglen deledu, pan fo uniondeb artistig y perfformiad yn ei gwneud yn briodol i'r person hwnnw ysmygu. Nid yw'r esemptiad a ddarperir i'r perfformiwr unigol yn gymwys i bersonau eraill sy'n bresennol yn ystod y perfformiad. Nid yw'r esemptiad yn gymwys i berfformwyr yn ystod ymarferiadau.

Yr amodau yn rheoliad 3A(2) yw: nad oes plant yn bresennol yn y rhan o'r fangre lle byddai person yn ysmygu; ac nad oes aelodau'r cyhoedd yn gwylio'r rhaglen deledu neu'r ffilm yn cael ei gwneud.

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U   D R A F F T

# 2012 Rhif (Cy. )

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Yn dod i rym* | *17 Hydref 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 3(1), (5) a (6) a 79(3) a (4) o Ddeddf Iechyd 2006(**1**) yn gwneud y Rheoliadau canlynol, y rhoddwyd drafft ohonynt gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac y'i cymeradwywyd drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 79(4) o'r Ddeddf honno.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2012, a deuant i rym ar 17 Hydref 2012.

### Diwygio Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007(**2**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1(3) (Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli) ar ôl y diffiniad o "hosbis i oedolion" mewnosoder—

> "ystyr "plentyn" (*"child"*) yw person sydd o dan 18 mlwydd oed;".

(**1**) 2006 p.28. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, fel yr "appropriate national authority" o dan y Ddeddf, i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p.32). Mae paragraff 34 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gymwys ac yn gwneud arfer pwerau o dan adran 3 o Ddeddf Iechyd 2006 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

(**2**) O.S. 2007/787 (Cy.68).

(3) Ar ôl rheoliad 3 (Esemptiadau i fangreoedd di-fwg) mewnosoder y rheoliad canlynol—

"**Esemptiadau i Berfformwyr**

**3A.—**(1) Pan fo uniondeb artistig perfformiad, a roddir mewn cysylltiad â gwneud ffilm neu raglen deledu, yn ei gwneud yn briodol i berson sy'n cymryd rhan yn y perfformiad hwnnw ysmygu, nid yw'r rhan o'r fangre y mae'r person hwnnw'n perfformio ynddi yn ddi-fwg mewn perthynas â'r person hwnnw yn ystod ei berfformiad, ar yr amod y bodlonir yr amodau ym mharagraff (2).

(2) Yr amodau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yw—

(a) nad oes plentyn yn bresennol yn y rhan o'r fangre nad yw'n ddi-fwg ac y perfformir ynddi gan y person hwnnw; a

(b) nad oes aelodau o'r cyhoedd yn gwylio'r perfformiad."

*[Enw]*

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad